

Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn		
Lle Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	08/12/2016	Amser Time	4.00 pm

Present:

Cynrychiolwyr y Sector Menter:		
Non Hughes	(NH)	William Hughes & co
Mari Faulkner	(MF)	Black Lion
Nigel Peacock	(NP)	SE
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Sian Purcell	(SP)	Medrwn Môn
Dewi Jones	(DJ)	Menter Gymdeithasol Llangefni
Robin Grove-White	(RGW)	Menter Mechell
Mark Gahan	(MG)	
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Trefor Jones	(TJ)	Prifysgol Bangor
Molly Lovatt	(ML)	NRW
Staff Menter Môn		
Gerallt Llewelyn Jones	(GLIJ)	
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JaD)	
Neil Johnstone	(NJ)	
Jackie Lewis	(JL)	
Bethan Fraser – Williams	(BFW)	
Staff Cyngor Sir Ynys Môn		
Eifion L Jones	(ELJ)	

Pwynt	Manylion	Gweithredu
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig aelodau newydd a staff. Gwnaed cyflwyniadau byr o amgylch y bwrdd.	
2	Cafwyd ymddiheuriadau gan yr aelodau canlynol. Jean Baker	

	<p>Hayley Carpenter Aled Davies Dr Dylan Evans, Neville Evans Alison Hughes Edna Jones Sian Purcell Keith Moore Dafydd Roberts Dafydd Roberts Alan Shenton Eryl Williams Heidi Williams</p>	
3	<p>Datganiad o ddiddordeb.</p> <p>Datganodd Mari Faulkener ddiddordeb yn Astro-dwristiaeth Ynys Môn a'r cynigion Ceginau Agored. Fel aelod o Gymdeithas Twristiaeth Ynys Môn, byddai'n gwneud cais i gymryd rhan yn y treialon. Cwblhawyd Ffurflen Datganiad.</p>	
4	<p>Cofnodion cyfarfod 5/7/16</p> <p>Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir</p>	
5	<p>Materion yn Codi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd crynodebau o brosiectau cymeradwy wedi cael eu cyfieithu ac roeddynt yn y broses o gael eu hanfon ymlaen at Rwydwaith Gwledig Cymru ar gyfer eu llwytho ar y wefan. • Nid oedd y wefan eto'n fyw ond roedd disgwyl y byddai hyn yn cael ei unioni cyn diwedd y flwyddyn. • Sefydlodd ymholiadau pellach mai dim ond £500 y sesiwn fyddai cost Satori Lab. Ar y sail honno, penderfynwyd bwrw ymlaen. 	
6	<p>Adroddiad Cynnydd</p> <p>Amlygodd Eifion Jones agweddau ar yr adroddiad, yn benodol bod y rhagolygon gwariant wedi cael eu hailbroffilio i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol. Dangosodd y graff y gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd mis Tachwedd a phroffil hyd at ddiwedd mis Rhagfyr.</p> <p>Tynnwyd sylw at y gwahanol gronfeydd sydd ar hyn o bryd yn agored o dan</p>	

	<p>y Cynllun Datblygu Gwledig, yn enwedig y Cynllun Datblygu Cymunedau Gwledig sydd ar agor tan y 31/1/17. Nodwyd bod nifer y ceisiadau o Ynys Môn wedi bod yn isel, a gofynnwyd i'r aelodau roi cyhoeddusrwydd i argaeledd y gronfa hon. Ceir rhagor o fanylion yn:</p> <p>http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/rural-community-development-fund/?skip=1&lang=cy</p> <p>Nodwyd yn y diweddariad ar y prosiectau y cafwyd cais am swm ychwanegol o £4,000 o gyllid ar gyfer marchnata, cludiant, ffilmio a gwerthusiad o'r prosiect Amgueddfa 'dros dro' ('Pop up')</p> <p>Cytunodd yr Aelodau i gefnogi'r gwariant ychwanegol.</p>	<p>Aelodau i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun</p>
7	<p>Cynigion prosiect</p> <p>Thema 1</p> <p>a) Astro-dwristiaeth Ynys Môn – Dangoswyd fideo fer o brosiect tebyg yn Northumberland ac amlinellodd JL ac MF y cynnig sy'n cynnwys ymgysylltu â'r sector twristiaeth i ddangos sut y gellir pecynnu astro-dwristiaeth i dwristiaid.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar yr offer a fyddai'n cael ei ddefnyddio a beth fyddai disgwyl i'r contractwyr wneud. Gwelir y prosiect hwn fel dull posibl o dynnu ymwelwyr i ganol yr Ynys yn hytrach na'u bod yn cronni yn yr ardaloedd arfordirol. Teimlwyd ei fod yn cysylltu â thema Blwyddyn y Chwedlau Croeso Cymru. Dylid cynnal y cysylltiadau â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr AHNE i ennill achrediad awyr dywyll.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol ar werth o £17,900</p> <p>Thema 2</p> <p>Ceginau Agored – Eglurodd JD y cysyniad y tu ôl i'r cynnig. Cafwyd trafodaeth ynghylch agweddau iechyd a diogelwch o gael aelodau o'r cyhoedd mewn ceginau masnachol. Y dull a oedd yn cael ei ffafrio oedd un caeedig "gwahoddiad yn unig". Roedd cysylltiad amlwg â thwristiaeth bwyd, a nodwyd enghraifft o dwristiaid yn barod i dalu i fynychu arddangosiadau gan y cogyddion gorau yn Llundain. Teimlwyd bod graddau Hylendid Bwyd a phersonoliaeth ac anian y cogydd yn ystyriaethau allweddol o ran y dewis o sefydliadau ar gyfer y prosiect.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol ar werth o £12,500</p>	

	<p>b) Gofod Gwyn Teledu – Cyflwynodd JD y cynnig. Roedd nifer yn rhannu'r profiad o ddarpariaeth band eang gwael neu anghyson, ond eglurwyd y byddai'r prosiect hwn yn targedu ardaloedd nad oeddent wedi'u hamserlennu i dderbyn band eang cyflym iawn yn y dyfodol agos (os o gwbl). Roedd cysylltiad clir gyda'r prosiect digidol arall sy'n cael ei ystyried. Teimlwyd hefyd y gallai'r prosiect yn anuniongyrchol roi pwysau i wella'r gwasanaeth cyffredinol. Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol ar werth o £14,000</p> <p>Thema 4</p> <p>c) Datblygu Prosiect 5K (Ynni) – Gan fod y £5,000 gwreiddiol a ddyrannwyd i'r thema wedi cael ei ddefnyddio, gofynnwyd am ddyraniad pellach o £5,000. Fel gyda'r dyraniad blaenorol, byddai unrhyw wariant yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr is-grŵp thematig. Nodwyd bod manylion am sut mae'r £5K yn cael ei wario ar gyfer pob thema yn cael ei ddarparu yn adroddiad y swyddogion. Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol ar werth o £5,000</p> <p>Thema 5</p> <p>d) Ymdrin ag Allgáu Digidol - Esboniodd NJ y byddai'r astudiaeth yn sefydlu gwaelodlin o ardaloedd a demograffeg lle'r oedd allgáu digidol ar ei waethaf, (o ran manteisio, yn hytrach na seilwaith) ynghyd â gwybodaeth am pa sefydliadau oedd yn gwneud beth i ymdrin â hyn. Roedd yr un mor berthnasol i fusnesau, grwpiau cymunedol ac unigolion. Teimlwyd bod llawer o sefydliadau yn gwneud llawer o waith da, ac y byddai hyn yn sefydlu pa fylchau oedd yn y ddarpariaeth, a byddai'n ffurfio sail cynlluniau peilot yn y dyfodol. Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol ar werth o £26,600</p>	
8	<p>Prosiectau a Gwblhawyd</p> <p>Cyflwynwyd cyflwyniadau fideo byr ar ddau brosiect cyfredol, sef preswylwyr yng Ngwalchmai yn siarad am eu cymunedau a chyfweliadau o dan y prosiect Mewndir Môn yn y "lansiad meddal" o amgueddfeydd 'dros</p>	

	<p>dro' (pop up). Gellir gweld y rhain yn: XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX</p> <p>a) Prosiect ESOS Dywedodd NJ bod yr astudiaeth newydd gael ei chwblhau, a bod gwersi perthnasol i amrywiaeth o fusnesau eraill ar yr Ynys sy'n ymwneud ag arbed ynni.</p> <p>b) Llyfrgelloedd. Nododd BFW bod gwaith wedi ei wneud gyda nifer o grwpiau i adnabod modelau posibl. Byddai cyfle i dreialu hyn rhwng yn awr a mis Hydref.</p>	
9	<p>Brandio</p> <p>Eglurodd Dafydd Gruffydd, yn dilyn trafodaeth gyda'r cadeirydd, y cytunwyd i fabwysiadu'r brand Arloesi Môn - byddai hyn yn atgyfnerthu bod y rhaglen yn y ddwy sir yn rhan o'r un "teulu".</p> <p>Cadarnhaodd y Cyfarfod fabwysiadu Arloesi Môn fel brand</p>	
10	<p>Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF)</p> <p>Derbyniwyd dau gais ar gyfer sylwadau: Llangefni, tref sy'n croesawu beicwyr – Cafodd hwn ei ailgyflwyno gan ei fod ond 1 marc yn is na'r torbwynt y tro diwethaf. Yr Hen Ysgol Llanddona: Calon y Pentref – i brynu yr hen ysgol fel neuadd gymunedol.</p> <p>Roedd y cyfarfod yn gefnogol i'r ddau gais</p>	
11	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod</p>	
12	<p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>Ar hyn o bryd mis Chwefror 22^{ain}, fodd bynnag, gall hyn newid</p>	
	Gorffen	